**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 44 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru ) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ar ôl ymgynghori â'r personau gofynnol, yn cynnig addasu Ysgol Cynwyd Sant, Pen-Yr-Ysgol, Maesteg CF34 9NS drwy:

- agor canolfan adnoddau dysgu ar gyfer anawsterau dysgu cymedrol i uchafswm o bymtheg o ddisgyblion yn yr ysgol.
- Cynigir y byddai'r ganolfan yn agor yn nhymor yr hydref 2022.

Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar hyn o bryd.

Nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd yw 254, capasiti'r ysgol ar gyfer disgyblion yw 315 a'r capasiti arfaethedig os caiff y cynnig ei weithredu fydd 254.

O dan y cynnig hwn, byddai'r ganolfan adnoddau dysgu yn rhan annatod o'r ysgol prif ffrwd, gan ddarparu amgylchedd priodol lle gall disgyblion ddatblygu a ffynnu yn eu grŵp cyfoedion a chael mynediad arferol at y cwricwlwm prif ffrwd pan fo hynny'n briodol. Byddai'r ganolfan yn darparu cyfleusterau dysgu arbenigol yn yr ysgol ac yn darparu arbenigedd a chyngor i'r holl staff.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fydd yr awdurdod derbyniadau. Bydd yr holl dderbyniadau i'r ganolfan adnoddau dysgu yn cael eu penderfynu gan banel derbyniadau.

Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion, ymatebion y cynigiwr ac ymateb llawn Estyn ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:

https://www.bridgend.gov.uk/my-council/equalities-and-engagement/consultations/closed-consultations/ysgol-cynwyd-sant-consultation/

Bydd trefniadau trafnidiaeth ysgol yn dilyn Polisi Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol/Coleg cyfredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr: https://www.bridgend.gov.uk/media/5633/polisi-cludiant-rhwng-y-cartref-ar-ysgol-neu-goleg-f2.pdf

O fewn cyfnod o 28 diwrnod i'r dyddiad pan gyhoeddwyd y cynnig hwn, hynny yw, erbyn 27 Gorffennaf 2022 caiff unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion.

Mae'n rhaid i'r gwrthwynebiadau gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig i:
Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)
d/o Uned Cymorth Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
CF31 4WB

Neu eu hanfon drwy e-bost i: edsu@bridgend.gov.uk

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a wneir (ac na thynnir yn ôl yn ysgrifenedig) o fewn y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i ymateb iddynt, cyn diwedd y saith diwrnod sy'n dechrau ar ddiwrnod penderfynu ar y cynnig.

Llofnod:

Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
30 Mehefin 2022

**Nodyn Esboniadol**

Effaith y cynigion uchod fyddai agor canolfan adnoddau dysgu ar gyfer pymtheg o ddisgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol yn Ysgol Cynwyd Sant yn nhymor yr hydref 2022.

Byddai'r cynnig i agor canolfan adnoddau dysgu ar gyfer anawsterau dysgu cymedrol yn Ysgol Cynwyd Sant yn rhoi cyfle i'r disgyblion hynny sydd â diagnosis o anawsterau dysgu cymedrol fod yn rhan o'r ysgol prif ffrwd, gan ddarparu amgylchedd priodol lle gall y disgyblion ddatblygu a ffynnu yn eu grŵp cyfoedion a chael mynediad arferol i'r cwricwlwm prif ffrwd pan fo hynny'n briodol.

Y nifer derbyn cyhoeddedig ar gyfer Ysgol Cynwyd Sant yw 45. Nifer derbyn cyhoeddedig ysgol yw'r nifer lleiaf o ddisgyblion yn y "grŵp oedran perthnasol" (h.y. y grŵp oedran y derbynnir plant iddi fel arfer) y byddai'n ofynnol i'r ysgol ei dderbyn ar alwad. Gellir derbyn mwy na'r nifer hwn i'r ysgol (yn amodol ar ddarpariaethau polisi derbyniadau'r awdurdod lleol) os bydd yr awdurdod lleol o'r farn bod digon o le ar gael ar yr adeg benodol honno ac ar yr amod na fyddai gwneud hynny yn llesteirio defnydd effeithlon o adnoddau addysg.